

Adnodd 2-5: Adolygiadau Tystiolaeth

Beth yw Adnodd 2-5 a sut maen nhw'n gweithio?

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys pedair cronfa ddata sy'n crynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer ystod o raglenni addysgu a ddefnyddir yn gyffredin, ac/neu ymyraethau a ddefnyddir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Dyma'r pedwar adolygiad tystiolaeth:

- rhaglenni Llythrennedd
- rhaglenni Rhifedd
- rhaglenni Llesiant ac Ymddygiad
- rhaglenni ar-lein (llythrennedd a rhifedd)

Mae'r pedwar adolygiad hwn yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth gyfredol ar gyfer ystod o raglenni ac ymyraethau a ddefnyddir yn gyffredin. Ar gyfer pob rhaglen, cyflwynir ystod o wybodaeth ymarferol sydd o ddefnydd i arweinwyr ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth ar effeithlonrwydd, cost, gofynion o ran hyfforddiant a chysylltiadau â'r cwricwlwm.

Cyflwynir yr adolygiadau tystiolaeth mewn cronfa ddata Excel chwiliadwy o ymyraethau sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys manylion ynghylch rhaglenni ac ymyraethau y gwyddom sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin yn ysgolion GwE. Yn ogystal â gwybodaeth am effeithiolrwydd, cost a gofynion hyfforddiant, rydym hefyd, lle bo modd, wedi ychwanegu dolenni i'r darparwr ac/neu'r cyhoeddwr a all gynnig cymorth pellach.

Gellir hidlo pob cronfa ddata yn rhwydd i chwilio am naill ai rhaglen benodol ac/neu gyfnod allweddol. Casglwyd y dystiolaeth ym mis Gorffennaf 2020.

Sut y gwyddom y bydd Adnodd 2-5 yn ddefnyddiol?

Fe wnaeth swyddogion GwE ac ymchwilwyr y Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor a'r *Centre for Educational Development, Appraisal and Research (CEDAR)*, Prifysgol Warwick chwilio'r prif storfeydd a'r sefydliadau addysg a ganlyn i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth:

Evidence for ESSA <https://www.evidenceforessa.org>

What Works Clearing house (WWC) <https://ies.ed.gov/ncee/wwc/>

Evidence 4 Impact (E4I) <https://www.evidence4impact.org.uk/>

	<p>Education Endowment Foundation (EEF) https://educationendowmentfoundation.org.uk</p> <p>Best Evidence Encyclopedia http://www.bestevidence.org.uk/</p> <p>Yn ogystal, lle bo angen, fe wnaeth y tîm ymchwil chwilio am bapurau ymchwil wedi'u cyhoeddi, gyda ffocws ar raglenni ac/neu ymyraethau perthnasol, ochr yn ochr â gwefannau cyhoeddwr a'r llenyddiaeth lwyd.</p> <p>Nod yr adolygiadau hyn oedd cynnwys yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer rhaglenni ac ymyraethau academiaidd a llesiant a ddefnyddir yn gyffredin. Er mwyn ein helpu ni i drefnu'r wybodaeth mewn dull sy'n fwy systematig a defnyddiol i ysgolion, rydym wedi cyflwyno'r canfyddiadau ar nifer o nodweddion allweddol. Disgrifir y rhain fel meini prawf cynhwysiant sylfaenol ac eilaidd, ac maen nhw'n agweddau pwysig i'w hystyried wrth werthuso gwahanol raglenni ac ymyraethau mewn ysgolion.</p>
<p>Sut fydd ysgolion yn gallu defnyddio Adnodd 2-5?</p>	<p>Bwriad yr adolygiadau tystiolaeth hyn yw rhoi crynodeb i arweinwyr ysgolion o'r dystiolaeth a'r wybodaeth ymarferol am raglenni addysgu ac ymyraethau. Hyderwn fod crynhoi'r canfyddiadau hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i addysgwyr iddynt allu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth er sicrhau'r effaith orau ar ddeilliannau disgyblion.</p> <p>Mae a oes gan ymyrraeth neu raglen sylfaen dystiolaeth yn un o'r prif ystyriaethau wrth chwilio am ymyraethau neu raglenni, naill ai sylfaen dystiolaeth yn y llenyddiaeth ymchwil neu un a ddarperir gan ddatblygwyr y rhaglen. Mae natur ac ansawdd y dystiolaeth yn amrywio'n sylweddol, o astudiaethau peilot ar raddfa fach i hap-dreialon safonol wedi'u rheoli. Nid oes tystiolaeth o effaith rhai rhaglenni. Rydym hefyd wedi cynnwys ystod o agweddau ymarferol pwysig i ysgolion eu hystyried cyn eu bod yn penderfynu defnyddio ymyrraeth neu raglen, er enghraifft hyfforddiant i ddechrau arni, costau parhaus, ac a all rhieni gefnogi yn y cartref.</p> <p>Yn nodweddiadol, adroddir am dystiolaeth o effaith rhaglen neu ymyrraeth fel maint effaith yn y llenyddiaeth, ac mae llawer o'r adnoddau sy'n rhan o'r adolygiadau tystiolaeth hyn yn adrodd am ddata maint effaith. Mae maint effaith (a adroddir amdano yn aml fel <i>gwerth d</i>) yn ffordd ddefnyddiol o fesur y gwahaniaeth rhwng dau grŵp, fel arfer grŵp ymyrraeth (y grŵp arbrofol) a grŵp sy'n parhau ag addysgu arferol (y grŵp rheoli). Mae llawer o'r meintiau effaith yr adroddir amdanynt yn yr adolygiadau hyn yn adrodd am y gwahaniaeth hwn, ac yn ein helpu ni i ddeall a gafodd y rhaglen neu'r ymyrraeth fwy o effaith na dulliau addysgu arferol. Adroddir am feintiau effaith mewn unedau gwyrriad safonol, cysyniad sy'n gyfarwydd i ysgolion trwy ddefnyddio sgorau safonedig mewn profion darllen a rhifedd cenedlaethol.</p> <p>Er mwyn helpu ymchwilwyr ac arweinwyr ysgolion i asesu maint y gwahaniaeth rhwng dau grŵp, mae meintiau effaith yn cael eu grwpio fel a ganlyn:</p> <p>Ystyrir bod maint effaith > 0.6 yn effaith fawr Ystyrir bod maint effaith 0.3-0.6 yn effaith ganolig Ystyrir bod maint effaith < 0.2 yn effaith fach (fydd efallai'n welliant mewn deilliannau dysgu o ganlyniad i effeithiau datblygiadol yn unig).</p> <p>Ystyria rhai ymchwilwyr bod maint effaith o 0.4 yn bwynt allweddol, gan y derbyn hyn yn gyffredinol fel effaith blwyddyn o addysg, ar gyfartaledd. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i arweinwyr ysgolion ystyried y pwynt allweddol hwn fel man cychwyn ar gyfer trafod y dulliau gorau i'w defnyddio, yn hytrach na sail ar gyfer gwneud penderfyniadau am ymyraethau a strategaethau.</p> <p>Gan bod y raddfa maint effaith yn seiliedig ar unedau gwyrriad safonol, mae'n ddefnyddiol ystyried bod maint effaith o 1.0 (effaith fawr) yn cyfateb i ddysgwyr yn gwella o 100 i 115 mewn prawf safonedig (gyda gwyrriad safonol o 15). Cewch ragor o wybodaeth am ddefnyddio meintiau effaith yma:</p>

	<p>https://assessment.tki.org.nz/Using-evidence-for-learning/Working-with-data/Concepts/Effect-size</p> <p>http://visible-learning.org/hattie-ranking-influences-effect-sizes-learning-achievement/</p> <p>http://www.leeds.ac.uk/educol/documents/00002182.htm</p> <p>Mae'n bwysig nodi y dylid penderfynu ar ba raglenni i'w prynu neu ddefnyddio ar ôl gwerthuso'n llawn yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn yr adolygiadau hyn. Cyflwynir yr wybodaeth yn yr adolygiadau hyn mewn cyfres o gwestiynau allweddol y dylai arweinwyr ysgolion eu cynnwys yn eu trafodaethau fel rhan o ddull sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth. Felly, disgrifir yr agweddau allweddol hyn fel meini prawf cynhwysiant sylfaenol ac eilaidd, h.y. nodweddion sylfaenol mor bwysig y dylid eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau ysgol. Mae'r meini prawf hyn yn Atodiad 1.</p> <p>Yn olaf, mae'n bwysig nodi bod effaith rhaglen neu ymyrraeth yn dibynnu ar ansawdd y gweithredu. Mae ein gwaith ymchwil diweddar ar hyd a lled gogledd Cymru wedi dangos y gall rhaglenni sydd â sylfaen dystiolaeth gref fod yn aneffeithiol os yw ansawdd y gweithredu yn wael. Yn ogystal, dylai ysgolion ystyried y gallai rhaglenni sydd ag adroddiadau am faint effaith bach dal fod yn rhaglenni addawol os ydyn nhw'n rhad i'w cychwyn a rhwydd i'w gweithredu ar raddfa. Mae cael cydbwysedd rhwng maint effaith a chost/adnoddau yn ystyriaeth bwysig - nid yw ymyrraeth sy'n gostus i'w chychwyn, yn anodd i'w chyflwyno ac sydd â maint effaith bach yn debygol o helpu ysgol i wella deilliannau dysgu, er, os yw'r deilliannau bach yn ystyrion ar gyfer rhai myfyrwyr risg uchel yna efallai y byddai arweinwyr ysgol yn ystyried hyn yn fuddsoddiad gwerthfawr. Yn yr un modd, dylai ysgolion fod yn wyliaidwros o raglenni â meintiau effaith canolog neu fawr, ond sy'n gostus i'w cychwyn ac yn anodd i'w gweithredu a'u cynnal dros amser.</p>
<i>Pa ddisgyblion fydd yn elwa ar yr adnoddau hyn?</i>	Bwriedir i'r adolygiadau tystiolaeth hyn wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer pob dysgwr, a hynny trwy fod yn fodd i ysgolion wneud penderfyniad mwy gwybodus am ba strategaethau i'w defnyddio i wella'r ddarpariaeth i bob dysgwr. Fodd bynnag, credwn y byddant yn arbennig o ddefnyddiol i ysgolion pan fyddant yn ystyried gwariant yn erbyn eu dyraniadau grant blynyddol, er enghraifft GDD.
<i>Sut fydd ysgolion yn defnyddio'r adnoddau hyn?</i>	Mae'r adolygiadau tystiolaeth hyn ar gael am ddim ar Ganolfan Cefnogaeth GwE: https://sites.google.com/hwbcymru.net/ccg-gsc/cc-gwe-sc
<i>Beth fydd angen i ysgolion gyfrannu?</i>	Dylai ysgolion ddefnyddio'r adolygiadau tystiolaeth hyn fel rhan o ddull cynllunio gwelliant sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth.
<i>Beth yw'r gost i bob ysgol?</i>	Mae'r adolygiadau tystiolaeth hyn ar gael am ddim ar Ganolfan Cefnogaeth GwE.
<i>Beth sy'n digwydd nesaf?</i>	Mae'r adolygiadau tystiolaeth hyn ar gael am ddim ar Ganolfan Cefnogaeth GwE.

Tîm y Prosiect

Enw	Rôl	Sefydliad	Manylion cyswllt
Richard Watkins	Ymchwil ac Arfarnu Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant	GwE; CIEREI, Prifysgol Bangor	richardwatkins@gwegogledd.cymru
Manon Davies	Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Mathemateg Cynradd	GwE	manonesylltdavies@gwegogledd.cymru
Vicky Lees	Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Llythrennedd Cynradd	GwE	vickylees@gwegogledd.cymru
Gaynor Murphy	Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Saesneg a Llythrennedd Uwchradd	GwE	GaynorMurphy@gwegogledd.cymru
Delyth Ellis	Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Mathemateg a Rhifedd Uwchradd	GwE	delythellis@gwegogledd.cymru
Sian Caldwell	Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Mathemateg a Rhifedd Uwchradd	GwE	SianElizabethCaldwell@gwegogledd.cymru
Nia Thomas	Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Trawsnewid ADY	GwE	
Kaydee Owen	Myfyriwr ymchwil PhD	CIEREI, Prifysgol Bangor	
Jane Pegram	Myfyriwr ymchwil PhD	CIEREI, Prifysgol Bangor	
Atiyya Nisar	Myfyriwr ymchwil PhD	CEDAR, Prifysgol Warwick	

Atodiad 1

RHAGLENNI LLYTHRENEDD A RHIFEDD AR-LEIN	RHAGLENNI LLYTHRENEDD A RHIFEDD	RHAGLENNI LLESIAINT AC YMDDYGIAD
<p>Meini Prawf Cynhwysiant Sylfaenol</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. A yw'r rhaglen yn ategu'r cwricwlwm? 2. A oes gan y rhaglen sylfaen dystiolaeth? 3. A yw'r rhaglen yn targedu sgiliau academiaidd? 4. A oes modd defnyddio'r rhaglen yn y cartref ac/neu yn yr ysgol? 	<p>Meini Prawf Cynhwysiant Sylfaenol</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. A yw'r rhaglen yn ategu'r cwricwlwm? 2. A oes gan y rhaglen sylfaen dystiolaeth? 3. A yw'r rhaglen yn targedu sgiliau academiaidd? 	<p>Meini Prawf Cynhwysiant Sylfaenol</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. A yw'r rhaglen yn ategu'r cwricwlwm? 2. A oes gan y rhaglen sylfaen dystiolaeth? 3. A yw'r rhaglen yn targedu deilliannau ymddygiadol ac/neu llesiant craidd?

Meini Prawf Cynhwysiant Eilaidd	Meini Prawf Cynhwysiant Eilaidd	Meini Prawf Cynhwysiant Eilaidd
<ol style="list-style-type: none"> 1. A yw'r rhaglen yn darparu addysgu sy'n annibynnol o'r athro? 2. A ellir cyflwyno'r rhaglen heb gymorth sylweddol gan yr athro/staff? 3. A yw'r rhaglen yn rhoi adborth er mwyn i ddysgwyr gywiro? 4. A yw'r rhaglen yn debygol o greu profiad dysgu cadarnhaol? 	<ol style="list-style-type: none"> 1. A yw'r rhaglen yn cynnig datblygiad proffesiynol ac/neu gyfleoedd i gael cymorth ar ôl hyfforddiant? 2. A yw'r rhaglen yn cynnwys deunyddiau atodol y gellir eu defnyddio gartref? 	<ol style="list-style-type: none"> 1. A yw'n eithaf rhwydd cychwyn arni gyda'r rhaglen? 2. A ellir cyflwyno'r rhaglen heb gymorth sylweddol gan yr athro/staff? 3. A all rhieni a gofalwyr gefnogi'r rhaglen gartref?